Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

the latest from
# the newsroom

March 2021


## A message from Tamsyn Rowe, the Project Manager



Welcome to our latest newsletter for the proposed Awel y Môr Offshore Wind Farm. Since my last update, we have continued developing our plans. In this newsletter, we will summarise our progress. I will also update you on the opportunities for you to engage with us as we move forward.

It has been a challenging start to 2021 but I am hopeful circumstances will improve. Should conditions allow, the team and I would hope to meet with you face-to-face during our next round of consultation later this year. In the meantime, our dedicated email and phoneline is still open to any questions you might have. You can find these at the bottom of the page.

## Boundary reduction of the proposed offshore wind farm array




Potential visual impact on the surrounding landscapes is always a topic of interest and consideration when developing new energy infrastructure and Awel y Môr is no different. We learnt a lot from our 2020 public consultation and engagement with statutory stakeholders as well as the results from technical surveys. Taking this on board, we have looked again at the offshore array and reduced the array area by 17% to the western side. The map above shows this reduction. We believe that this change will help reduce potential visual impacts of the wind farm from a number of locations in North Wales while still delivering a meaningful renewable energy project.

This reduction would mean that the total array area we are now considering is 88km$^2$ rather than 106km$^2$. Also, the maximum number of turbines we are considering has reduced from 107 to a maximum of 91.

## Bird, marine mammal and seabed surveys completed



Two years of offshore aerial bird and marine mammals surveys are now complete with extensive data captured. The aim of the surveys was to look at the types and distribution of birds using the area which will inform our designs and environmental impact assessment. Dolphins, harbour porpoises and seals were recorded in the area neighbouring the existing offshore wind farms whilst auks, guillemots and razorbills were abundant bird species with sighting of small gulls, common scoters, gannets and herring gulls amongst others. Awel y Môr commissioned environmental consultancy Apem Ltd. to carry out this science based work which was supported by their experienced team at Hawarden, Flintshire.

Another milestone achieved is the completion of our seabed surveys. Sam Litchfield, Fugro Project Manager said “Fugro, in collaboration with RWE, has successfully completed full site investigation surveys on schedule. Over 5000 km of data was acquired during more than 105 days at sea with zero HSSE incidents. Seabed imagery, environmental sampling and geophysical surveys in the offshore and intertidal environment were delivered to support the continued development of the Awel y Môr offshore wind farm. This data will feed into the turbine and offshore infrastructure layout, as well as facilitating cable route design.”

## Wales’ commitment to reaching net zero by 2050


Gwynt y Môr Offshore Wind Farm

The Senedd was the first Parliament in the world to vote in favour of declaring a climate emergency and the Welsh Government has accepted advice from the UK Climate Change Committee to being “net zero” by 2050. This means that emissions from homes, transport, farming and industry will be avoided or offset. The target will be legally binding and projects like Awel y Môr could play a significant role in helping Wales tackle climate change.

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs Lesley Griffiths said:
Awel y Môr offshore wind farm is important in our transition to a Net Zero Wales. Renewable energy project like these not only provide us with the electricity we need for our everyday lives- they help build a clean future for our children and grandchildren, whilst providing opportunities for local supply chains which could provide good quality jobs for communities.

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

## Next steps

As you will have seen from the last newsletter (February 2021), our preferred transmission infrastructure sites have been selected. We are now working with landowners along this route to carry out surveys for refinement purposes and make sure that potential impacts to land are minimised. We have a dedicated team of experts working with landowners and interested parties. If you are affected or have any queries, you can contact Glyn Eden via email at glyn.eden@dalcourmaclaren.com by telephone on 01270 446416.

We are also continuing work on our Preliminary Environmental Information Report. This document sets out the first part of our Environmental Impact Assessment, and we will consult with you on it later this year. We plan to host that consultation in late summer and, all being well, we hope to meet with you face-to-face in local venues, but will be ready with virtual alternatives if government virus guidelines demand it. As always, if you have any comments or queries about the project you don't need to wait for our next consultation. Please feel free to contact us at any time.

## Planned timeline

| | |
|---|---|
| Summer 2019 | Passed the Crown Estate's Plan Level Habitats Regulations Assessment (HRA) allowing the project to progress to securing an Agreement for Lease |
| Summer 2020 | Agreement for Lease signed with the Crown Estate which allows RWE to start to develop and seek consent for the project |
| Nov-Dec 2020 | Surveys and first round of (non-statutory) public consultation |
| 2021 | Ongoing project design and further environmental surveys |
| Late summer 2021 | Formal statutory public consultation and publication of our Preliminary Environmental Information Report |
| 2022 | Submit application for a Development Consent Order to the Planning Inspectorate and for a Marine Licence to Natural Resources Wales |
| 2023-24 | Decision on the Development Consent Order and Marine Licence |
| 2030 | Subject to the project securing a development consent and the Marine Licence, it is expected that the wind farm could be operational by 2030 |

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

y diweddaraf o'r
# ystafell newyddion

Mawrth 2021


## Neges gan Tamsyn Rowe, y Rheolwr Prosiect



Croeso i'n cylchlythyr diweddaraf ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr arfaethedig. Ers fy niweddariad diwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu ein cynlluniau. Yn y cylchlythyr hwn, byddwn yn crynhoi'r cynnydd. Byddaf hefyd yn rhoi'r diweddaraf i chi ar gyfleoedd i ymgysylltu â ni wrth i ni symud ymlaen.

Mae dechrau 2021 wedi bod yn heriol, ond 'dw i'n obeithiol y bydd yr amgylchiadau'n gwella. Os yw'r amodau'n caniatáu, byddai'r tîm a minnau'n gobeithio cwrdd wyneb yn wyneb gyda chi yn ystod ein cylch ymgynghori nesaf yn ddiweddarach eleni. Yn y cyfamser, mae ein cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn pwrpasol yn dal ar agor i unrhyw gwestiynau allai fod gennych. Mae'r rhain ar waelod y dudalen.

## Lleihau ffin arae'r fferm wynt alltraeth arfaethedig




Mae effaith weledol posib ar y tirweddau cyfagos bob tro'n bwnc llosg ac yn rhywbeth i'w ystyried wrth ddatblygu seilwaith ynni newydd, ac mae'r un peth yn wir am Awel y Môr. Dysgom lawer gan ein hymgynghoriad cyhoeddus yn 2020 ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid statudol, yn ogystal â chanlyniadau'r arolygon technegol. Gan gadw hyn mewn cof, rydym wedi ail-edrych ar yr arae alltraeth ac wedi ei leihau gan 17% ar yr ochr orllewinol. Mae'r map uchod yn dangos y lleihad. Credwn y bydd hyn yn helpu i leihau effeithiau gweledol posib y fferm wynt o nifer o leoliadau yng ngogledd Cymru, wrth barhau i gynnig prosiect ynni adnewyddadwy ystyrlon.

Byddai'r lleihad hwn yn golygu mai cyfanswm arwynebedd yr arae yr ydym yn ei ystyried yw 88km$^2$ yn hytrach na 106km$^2$. Hefyd, mae uchafswm nifer y tyrbinau yr ydym yn ei ystyried wedi lleihau o 107 i uchafswm o 91.

Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

## Arolygon adar, mamolion morol a gwelyau’r môr wedi’u cyflawni



Mae gwerth dwy flynedd o arolygon adar yr awyr alltraeth a mamolion morol wedi’u cyflawni bellach, ac rydym wedi casglu llawer o ddata. Nod yr arolygon oedd edrych ar y mathau a’r rhaniad o adar sy’n defnyddio’r ardal, fydd yn llywio ein dyluniadau a’r asesiad o’r effaith ar yr amgylchedd. Cofnodwyd dolffiniaid, llamhidyddion harbwr a morloi yn yr ardal gyfagos i’r fferm wynt alltraeth presennol. Roedd llawer iawn o garfilod, gwylogod a llursod, a gwelwyd gwylanod bychan, môr-hwyaid duon, gwylanwyddau a gwylanod y penwaig hefyd. Comisiynodd Awel y Môr y cwmni ymgynghoriaeth amgylcheddol Apem Ltd. i wneud y gwaith gwyddonol hwn, a gafodd gefnogaeth gan y tîm profiadol ym Mhenarlâg, Sir y Fflint.

Carreg filltir arall yw cwblhau’r arolygon gwelyau’r môr. Dywedodd Sam Litchfield, Rheolwr Prosiect Fugro, “Cafodd dros 5,000km o wely’r môr ei arolygu dros 105 diwrnod. Tynnwyd lluniau a samplau, astudiwyd yr anifeiliaid a’r planhigion ar wely’r môr ac mae wedi cael ei fapio. Bydd yr holl ganfyddiadau hyn yn cael eu hastudio ac yn helpu i bennu ble byddwn yn lleoli’r tyrbinau, y llwybrau ceblau a’r seilwaith alltraeth cysylltiedig.”


Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr

## Ymrwymiad Cymru i gyflawni sero net erbyn 2050

Senedd Cymru oedd Senedd cynta’r byd i bleidleisio o blaid datgan argyfwng hinsawdd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU ar sut i fod yn “sero net” erbyn 2050. Golyga hyn y bydd allyriadau o gartrefi, trafnidiaeth, ffermio a diwydiant yn cael ei osgoi neu ei wrthbwyso. Bydd y targed yn gyfreithiol rwymol, a gallai prosiectau fel Awel y Môr chwarae rhan sylweddol i helpu Cymru i daclo newid hinsawdd.

Dywedodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
Mae fferm wynt alltraeth Awel y Môr yn bwysig yn y broses o symud at Gymru Sero Net. Nid yn unig yw prosiectau ynni adnewyddadwy fel hyn yn rhoi’r trydan sydd ei angen arnom ar gyfer ein bywydau bob dydd - maent yn helpu i greu dyfodol glân i’n plant a’u plant nhw, wrth gynnig cyfleoedd i gadwyni cyflenwi lleol allai ddarparu swyddi o safon i gymunedau.

## Camau nesaf

Fel y byddwch wedi gweld yn y cylchlythyr diwethaf (Chwefror 2021), mae ein safleoedd seilwaith trosglwyddo dewisol wedi cael eu dethol. Bellach, rydym yn gweithio gyda thirfeddianwyr ar y llwybr hwn i gynnal arolygon at ddibenion mireinio, ac i wneud yn siŵr bod effeithiau posib ar dir yn cael eu lleihau. Mae gennym dîm ymroddgar o arbenigwyr sy'n gweithio gyda thirfeddianwyr a phartïon â diddordeb. Os ydych yn cael eich effeithio neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â glyn.eden@dalcourmaclaren.com neu ffoniwch 01270 446416.

Rydym hefyd yn parhau â'r gwaith ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol. Mae'r ddogfen hon yn nodi rhan gyntaf yr Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, a byddwn yn ymgynghori gyda chi ar hyn yn ddiweddarach eleni. Rydym yn bwriadu cynnal yr ymgynghoriad hwnnw ddiwedd yr haf, ac os bydd popeth yn iawn, rydym yn gobeithio cwrdd â chi wyneb yn wyneb yn lleol, ond byddwn yn barod gydag opsiynau rhithwir yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ar y feirws bryd hynny. Fel bob amser, os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau am y prosiect, does dim angen i chi aros tan yr ymgynghoriad nesaf. Mae croeso i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg.

## Amserlen fwriedig

| | |
|---|---|
| Haf 2019 | Pasio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Lefel Cynllun Ystâd y Goron (HRA) wnaeth alluogi'r prosiect i symud ymlaen at sicrhau Cytundeb ar gyfer Les |
| Haf 2020 | Cytundeb ar gyfer Les yn cael ei lofnodi gydag Ystâd y Goron, sy'n galluogi RWE i ddechrau datblygu a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer y prosiect |
| Tachwedd-Rhagfyr 2020 | Arolygon a'r rownd gyntaf o ymgynghoriad cyhoeddus (nad yw'n statudol) |
| 2021 | Gwaith dylunio'r prosiect parhaus a rhagor o arolygon amgylcheddol |
| Diwedd yr haf 2021 | Ymgynghoriad cyhoeddus statudol ffurfiol a chyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Cychwynnol |
| 2022 | Cyflwyno ceisiadau am Orchymyn Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio, ac ar gyfer Trwydded Forol i Gyfoeth Naturiol Cymru |
| 2023-24 | Penderfyniad ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu a'r Drwydded Forol |
| 2030 | Yn amodol ar y prosiect yn cael caniatâd datblygu a'r Drwydded Forol, disgwylir y gallai'r fferm wynt fod yn weithredol erbyn 2030 |